# JONES, EDWARD (bu farw 1586), cynllwynwr

**Enw:** Edward Jones
**Dyddiad marw:** 1586
**Rhiant:** Edward Jones
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cynllwynwr
**Maes gweithgaredd:** Gwrthryfelwyr; Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
**Awdur:** Arthur Herbert Dodd

mab hynaf Edward Jones o Blas Cadwgan, sir Ddinbych, a Cornhill, Llundain (teiliwr i Fari Tudur a meistr y wardrob yn llys Elisabeth I), a oedd yn fab i John ap David ap Robert, un o ddisgynyddion Cynwrig ap Rhiwallon. Bu Edward Jones, yr hynaf (siryf sir Ddinbych yn 1576), farw yng Nghadwgan yn 1581, gan adael symiau sylweddol o arian i'w berthnasau yng ngogledd Cymru ac i sefydlu ysgol ramadeg yn Wrecsam. Fodd bynnag, ni chyflawnwyd yr amodau yngl  n â'r rhodd i sefydlu'r ysgol. Cymeradwyodd ei fab (a oedd o'r un enw), i sylw ei noddwr, Iarll Leicester. Yn Llundain daeth Edward Jones, yr ieuaf, yn un o gyfeillion ac edmygwyr Thomas Salusbury o Lewenni, gward Leicester, a than ddylanwad Salusbury trodd ei gefn ar Brotestaniaeth. Gyda'i gyfaill trodd hefyd yn erbyn Leicester - fel amddiffynnydd Protestaniaeth a 'gormeswr' gogledd Cymru, - a denwyd ef i ymuno â chynllwyn Babington o blaid Mari, brenhines y Sgotiaid. Cyhuddwyd y ddau gyfaill o drafod, ar 13 Mehefin 1586, gynlluniau am gyhoeddi gwrthryfel o blaid Mari yn sir Ddinbych, ac ar ôl cipio Babington ar 14 Awst, ffodd y ddau i sir Gaerlleon lle y daliwyd hwy a'u dwyn i Lundain i sefyll eu prawf (neu hwyrach i Salusbury ddianc ar ei ben ei hun ac i Jones gael ei ddal yn Llundain). Cyffesodd Jones ei ffydd a chyfaddefodd ei fod wedi cuddio brad ei gyfaill a'i gynorthwyo i ddianc. Ond dywedodd ei fod wedi ceisio perswadio Salusbury i beidio â chynllwynio, a datganodd ei deyrngarwch i'r frenhines. Er hynny dienyddiwyd ef am fradwriaeth ar Tower Hill, 21 Medi 1586, ac aeth ei stad, gan gynnwys Plas Cadwgan, yn fforffed i'r goron.

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd**, (1891 - 1975)

## Ffynonellau

A. N. Palmer, *History of the thirteen country townships of the old parish of Wrexham, and of the townships of Burras Riffri, Erlas, & Erddig Being the fifth and last part of "A history of the town and parish of Wrexham"* (1903), 8-12 (yn J. Y. W. Lloyd, *History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog*, iii, 40), a *History of the town of Wrexham its houses, streets, fields, and old families. being the fourth part of "A history of the town and parish of Wrexham"* (Wrecsam 1893), 105 (a gywirir yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, ii, 1953, 45-6)

J. H. Pollen (gol.), *Mary, Queen of Scots, and the Babington Plot* (Caeredin 1922) (Scot. Hist. Soc., third series, iii, 1922), cxx-cxxi, clxxii-clxxiii 87

*Catholic Record Society*, iii, 1906, 25

D. Mathew, *The Celtic Peoples and Renaissance Europe. A study of the Celtic and Spanish influences on Elizabethan history* (1933), 65-7

E. G. Jones, *Cymru a'r Hen Ffydd*, 24,

ac yn *Trafodion Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych*, vi, 1957, 11-15

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 29107866

Wikidata: Q20732949

**Dyddiad cyhoeddi:** 1970

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu